**Dyddiad:** **Dydd Gwener 24 Mai 2002**

**Lleoliad:** **Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro**

**Teitl:** **Adolygu Polisi Ynni yng Nghymru**
**Rhan 1: Ynni Adnewyddadwy (Ebrill 2002)**
**Pwyllgor Datblygu Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Cyflwyniad

Yn ddiweddar mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi adolygu yn ffurfiol ei rôl a'i bolisi o ran ynni adnewyddadwy yn dilyn y rhan hynod lwyddiannus a chwaraeodd yn y broses o weinyddu Cronfa'r Cynulliad ar gyfer Datblygu'r Amgylchedd yn lleol yn y Sir. Mae'r Awdurdod o'r farn bod datblygu ynni adnewyddadwy, o ran polisi, yn estyniad naturiol o'i rôl gynyddol ym maes cyffredinol cynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy lle mae tuedd gynyddol i ystyried y Parciau Cenedlaethol yn batrymau ac yn ardaloedd peilot priodol ar gyfer arbrofi a datblygu enghreifftiau o arfer da.

Mae'r profiad a gafwyd trwy'r fenter EDF yn Sir Benfro wedi nodi galw penodol am gyllid ar gyfer ymchwil a datblygu ac am gymorth i weithredu a chymhwyso cysyniadau newydd a chyflwyno profiad o dramor i Gymru. Heblaw am y cyd-destun cynaliadwyedd cyffredinol, mae ynni adnewyddadwy hefyd yn dangos potensial sylweddol fel arf datblygu economaidd lleol i Sir Benfro o ran cynhyrchu a marchnata. Mae'r rhan fwyaf o'r materion y mae ein profiad ni wedi eu nodi dros y ddwy flynedd diwethaf yn cael eu crybwyll yn nogfen ymgynghori Pwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad, y mae'r cyfarfod hwn o Bwyllgor Rhanbarthol De-orllewin Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hi.

Nid oedd yr amserlen a oedd ar gael i'r rheiny a fu'n paratoi'r cyflwyniad hwn yn caniatáu i ni osod y sylwadau hyn gerbron Aelodau'r Awdurdod yn ffurfiol cyn eu cyflwyno, ac yn hynny o beth nid yw'n cynrychioli eu safbwynt swyddogol, er y bydd wedi ei adrodd iddynt er gwybodaeth erbyn bod y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal.

1. O safbwynt cenedlaethol, "Mae ynni yn fater neilltuedig'. Dyma'r mater ynghylch yr hyn y gall Cymru ei wneud yn annibynnol ar San Steffan o ran datblygu a gweithredu cynlluniau ynni o unrhyw arwyddocâd sylweddol. Mae'r mater hefyd yn amserol o gofio'r

ymgynghori cyfochrog sy'n digwydd ar hyn o bryd gan y Llywodraeth (DTLR a Llywodraeth Cynulliad Cymru) ar Weithdrefnau Seneddol Newydd ar gyfer Prosesu Prosiectau Isadeiledd sy'n mynd gyda'r prif Bapur Gwyrdd ar Gynllunio. Nid yw ynni yn fater neilltuedig yn yr Alban a fydd o bosibl yn rhoi mantais sylweddol iddynt o ran datblygu. Mae angen rhoi cefnogaeth frwd i Argymhelliad 5 yn yr Adroddiad.

2. Mae'r ddadl ar ynni adnewyddadwy mewn perygl o gael ei chanoli ar un dechnoleg unigol –defnyddio ynni gwynt – efallai am fod hwn yn ddull sydd wedi'i brofi, a'r unig fodd ymarferol o ddatblygu gallu i gynhyrchu ynni ar fyrder i gwrdd â tharged y Llywodraeth o 10% erbyn 2010. Mewn perthynas â'r ail argymhelliad, yn ymarferol nid yw'r targed 10% yn debygol o gael ei gyflawni yng Nghymru: pa lwyddiannau arwyddocaol sydd gennym hyd yma? Beth sy'n aros i gael ei weithredu? Pwy sydd am adeiladu yng Nghymru? Sut ydym wedi mynd ati i annog y mewn-fuddsoddi posibl hwn? Y perygl o ganolbwyntio'n ormodol ar y dull profedig o gynhyrchu ynni yw nad ydym eto wedi datblygu dulliau eraill ar gyfer yr adeg pan fydd y gyfres nesaf o dargedau'n cael ei chyhoeddi.

3. Fel y mae Adolygiad Ynni diweddar yr Uned Perfformiad a Blaengaredd (PIU) wedi adrodd, mae angen mwy o arian ar gyfer ymchwil a datblygu ar fyrder er mwyn edrych ar ffurfiau eraill o dechnoleg adnewyddadwy – ond ble mae hwn yn digwydd ar hyn o bryd a phwy sy'n gyfrifol amdano? Tynnodd adroddiad y PIU sylw at bwysigrwydd ynni'r llanw lle cafwyd datblygiadau cyffrous a phwysig yn Sir Benfro, ond mae yna berygl posibl (os nad go iawn) y bydd gwledydd eraill yn codi'r syniadau hyn a chanlyniadau'r gwaith cynnar, a ninnau unwaith yn rhagor yn allforio'r dechnoleg <u>a'r</u> cyfleoedd cynhyrchu. Mae hyn hefyd yn tynnu sylw at werth gwely'r môr fel adnodd posibl, gyda goblygiadau trwyddedu ac ati.

4. Maes arall sydd â'r un potensial cyffrous yw bio-màs, a'r allwedd mae'n sir yw integreiddio: o ran cyflenwi deunyddiau, cynhyrchu gwres gwyrdd ac i'r defnyddiwr wedi hynny. Mae nifer o brosiectau bychain yn codi ar hyd a lled Cymru (cynllun grant Asiantaeth Ynni Powys er enghraifft), ond mae'n ymddangos mai bach iawn o integreiddio a rhannu profiad sy'n digwydd. Mae angen adeiladu'r farchnad a datblygu ffynonellau, ac mae Coed Cymru a phartneriaid o'r sector preifat megis *Welsh Biofuels* o Ben-y-bont wedi dechrau ar y gwaith hwn, yr olaf trwy ddefnyddio pelenni o dramor yn y lle cyntaf a gwerthu gwresogyddion, y maent yn gobeithio y byddant yn datblygu i ddefnyddio pren gwastraff o Gymru o amrywiaeth o ffynonellau (dylid nodi bod rhyw 1 miliwn tunnell o bren gwastraff yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol yng Ngwledydd Prydain). Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes llawer o gydgysylltu, a bach iawn o waith ymchwil sydd wedi'i wneud o ran yr economeg gyffredinol, hwylustod cael gafael ar gyflenwad blynyddol cynaliadwy, neu broblemau o ran rheoli ansawdd a llygrwyr posibl. Unwaith eto, mae hon yn dechnoleg sydd wedi ei phrofi, sy'n cael ei gwerthu a'i defnyddio'n helaeth yn Sgandinafia – ond ble mae'r cymhelliant i losgi bio-màs (ar hyn o bryd mae olew cynhesu sy'n seiliedig ar garbon yn rhydd rhag toll ecséis…) a ble mae

amcan polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru /ADC yn arwain at gynllun grant gwres gwyrdd neu beth bynnag? Beth yw effaith bosibl newid yn gyfan gwbl i ffeibrau wedi’u hailgylchu yn UPM Shotton erbyn diwedd 2003 gan ryddhau i’r farchnad hyd at 370,000 tunnell o bren meddal sy’n cael ei gynaeafu yn flynyddol yng Nghymru. A fyddai modd defnyddio hwn yn Aberddawan i gymryd lle un llinell lo, gan ddefnyddio’r rheilffordd i ddosbarthu, gan ei gynorthwyo i gyfrannu at gwrdd â’r targedau adnewyddadwy? Mae’n sicr y byddai hyn yn fwy realistig nag edrych i’r awdurdodau lleol yn unig (Argymhelliad 2).

5. Mae’r mater o gynllunio, amwynder a chadwraeth tirwedd mewn perthynas ag ynni gwynt (ar y tir ac ar y môr) yn fater pwysig iawn ac o bryder i rai carfanau o’r cyhoedd. Beth yw union ystyr ‘symleiddio’r broses gynllunio’ (Argymhelliad 5) a sut mae hyn yn cysylltu â’r ymgynghori diweddar a chyhoeddus ar y Papur Gwyrdd ar Gynllunio yng Nghymru sydd newydd ddod i ben? Dylai’r broses gynllunio bennu meini prawf gofodol a pholisi clir i lywio datblygu, gan alluogi’r broses o ddatrys anghydfod i ddigwydd mewn modd trefnus i fodloni’r anghenion pwysig o ran cynnwys y gymuned a pherchenogaeth y gymuned o unrhyw benderfyniad a wneir. Dylid gosod y broses gyfan hon yn erbyn cefndir amcanion strategol clir a osodwyd gan y Llywodraeth.

6. Mae adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn argymell pob math o waith, gan gynnwys camau gweithredu targed, ond nid yw’n ymddangos fel pe bai’n mynd i’r afael â’r cwestiwn o strategaeth gyffredinol mewn sawl maes (h.y. buddsoddi gan y sector preifat –pwy sy’n gyfrifol am wneud i hyn ddigwydd a sut?) neu’r cyd-destun ehangach o gynhyrchu a defnyddio ynni. Mae angen i Argymhelliad 6 nodi ffocws a chyfrifoldeb clir ar gyfer datblygu’r elfennau Ymchwil a Datblygu, yn ogystal â’r potensial ar gyfer cynhyrchu yng Nghymru a nodir. Mae angen iddo nodi eiriolwr i yrru pethau ymlaen.

**Casgliad**

Hwyrach ei fod yn annheg, ond mae yna ganfyddiad nad ydym wedi gwneud defnydd da o’r cyfleoedd a gyflwynir gan y Cronfeydd Strwythurol a sefydliadau’r Llywodraeth hyd yn hyn i symud y mater hwn ymlaen gydag unrhyw rym neu arddeliad. Mae’n ymddangos i ni bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth ac adnoddau i’r canlynol:

- Datblygu strategaeth gyffredinol sy’n cynnwys pob math o ynni adnewyddadwy;
- Gweithgaredd ymchwil a datblygu, yn enwedig ar ynni’r llanw a bio-màs, cronfeydd arbennig ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu.
- Y prosesau gweithredu (sicrhau buddsoddiad, treialu cynlluniau ac ati)
- Cymorth ymarferol ac ariannol (cymhelliant ariannol a grantiau)
- Hyrwyddo ‘cynaliadwyedd’ a thaenu’r neges yn ehangach;
- Integreiddio strategaeth ynni cynaliadwy ag amcanion a rhaglenni polisi eraill;
- Amlygu – mae’n amlwg bod annog y sector cyhoeddus i chwarae rhan arweiniol yn y defnydd o

ynni adnewyddadwy yn bwysig, ond ni fydd tir sylweddol yn cael ei ennill hyd nes bod y sector preifat – ac yn enwedig y sawl sy’n cynhyrchu ynni – yn cael eu tynnu i mewn (Argymhelliad 3).

***Nic Wheeler (Prif Weithredwr) & David Fletcher (Swyddog EDF)***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, 13 Mai 2002***